






# Her Fawr yr Haf



Gyda'r gwyliau ysgol ar ein gwarthaf, mae Gwasanaethau Brys ledled Gogledd Cymru yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod pawb yn cael haf diogel a phleserus.

Eleni, mae **Heddlu Gogledd Cymru, PACT, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru** a'r **RNLI** yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn rhoi cyfle i ennill arian parod ar gyfer eu clwb / grŵp / ysgol.

Rydym yn annog grwpiau ieuenctid ledled Gogledd Cymru i gymryd rhan yn **Her Fawr yr Haf** - Ffordd wych o wneud argraff yn eich cymuned a chyfle i ennill arian!

87144

## A dyma...
## Her Fawr yr Haf!!

Rydym yn annog grwpiau ieuenctid ledled Gogledd Cymru i gymryd rhan yn Her Fawr yr Haf. Mae hon yn ffordd wych i grwpiau / clybiau / ysgolion gynorthwyo yn eu cymuned, codi ymwybyddiaeth am broblemau lleol neu genedlaethol, addysgu pobl eraill ynghylch peryglon gweithgareddau penodol neu wneud gwahaniaeth i fywydau pobl leol.

Prosiectau i'w cynnal rhwng 19 Mehefin - 4 Medi 2023!

**Er mwyn gwybod mwy, cliciwch yma**

#HerFawrYrHaf2023



HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Lifeboats

PACT

# Her Fawr yr Haf



Os ydych yn cael trafferth cael syniadau, mae ein partneriaid wedi rhoi awgrymiadau isod.

## Heddlu Gogledd Cymru

Codi ymwybyddiaeth am:

**1. DdiogelwchFfyrdd**

- Crëwch bosteri / taflenni er mwyn codi ymwybyddiaeth am y cyflymder priodol i yrru yn eich cymuned leol.
- Crëwch ymgyrch er mwyn annog plant i wisgo helmedau beicio a dillad llachar.
- Hyrwyddwch ddiogelwch gwregysau diogelwch gyda'ch ffrindiau a'ch teulu.
- Crëwch ymgyrch er mwyn atgoffa gyrwyr i beidio defnyddio eu ffonau symudol wrth yrru.

**2. Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

- Lansiwch brosiect er mwyn amlygu Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn eich ardal.
- Meddyliwch am faterion amgylcheddol yn eich ardal – sbwriel, baw cŵn ayyb a chanfyddwch ffyrdd o wella'r broblem.

**3. Atal Trosedd**

- Lluniwch brosiect sy'n cynorthwyo pobl fregus yn eich ardal leihau eu risg o ddioddef trosedd.
- Meddyliwch am brosiect sy'n codi ymwybyddiaeth am sgamiau ar-lein.

HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE

## GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Codi ymwybyddiaeth am:

- Beryglon tân afreolus yng nghefn gwlad
- Barbeciws diogel
- Peryglon cynnau tanau bwriadol
- Gorlwytho socedi trydanol
- Angen brwsio simneiau a chyrn simneiau yn rheolaidd
- Sicrhau bod ein ffrindiau, teulu a chymdogion oedrannus a bregus yn ddiogel rhag tân yn eu cartrefi
- Gyrru'n ddiogel a pheidio cael teithwyr yn tynnu sylw

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Her Fawr yr Haf



## RNLI

Codi ymwybyddiaeth am:

1. Cadw'n ddiogel wrth Badl Fyrddio – Lluniwch sticer i'w werthu gyda phadl fyrddau yng Ngogledd Cymru gan gynnwys y pedair neges ddiogelwch allweddol:
   - Gwisgwch gymorth hynofedd
   - Ewch â ffôn symudol mewn cwdyn sy'n dal dŵr
   - Gwisgwch y tennyn iawn
   - Osgowch wyntoedd ar y môr a gwiriwch amseroedd y llanw
2. Pedair neges ddiogelwch dŵr greiddiol yr RNLI i bobl ifanc. Crëwch boster neu fideo i'w defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol yn seiliedig ar y pedair neges ddiogelwch dŵr allweddol:
   - Pwyllwch a Meddwl
   - Glynwch at eich gilydd
   - Arnofiwch
   - Ffoniwch 999 neu 112
3. Diwrnod Atal Boddi'r Byd ar 25 Gorffennaf. Mae Diwrnod Atal Boddi'r Byd yn galw ar bobl i 'wneud un peth er mwyn atal boddi' ar neu yn agos at 25 Gorffennaf. Beth allwch chi feddwl all gyflawni hyn?

RNLI Lifeboats

## PACT

Syniadau y gallech eu defnyddio...

- Lansiwch brosiect er mwyn gwella diogelwch cymunedol
- Ymgyrchwch am angen lleol am enghraifft o gyfleuster chwaraeon, cymunedol neu ieuenctid sy'n fawr ei angen yn eich ardal
- Edrychwch o gwmpas eich ardal a gweld pa wahaniaeth allech chi ei wneud – gwella ardal ddiffaith neu ailwampio parc chwarae
- Lansiwch brosiect sy'n cynorthwyo pobl ifanc i deimlo fwy hyderus ac yn iach yn emosiynol
- Crëwch ymgyrch er mwyn gwella lles meddyliol a chyfathrebu. Gall y syniad hwn fod ynghylch eich ysgol, cymuned neu grŵp neu hyd yn oed yn gyfan gwbl ar-lein ac yn ddigidol

PACT

Ond yn y pen draw, eich penderfyniad chi ydyw!

# Her Fawr yr Haf



## Yr Her!

- Rhaid i'ch Tîm fod yn rhan o grŵp ieuenctid, clwb, dosbarth neu ysgol sydd wedi sefydlu
- Nid oes cyfyngiad ar y niferoedd o bobl a geir i ffurfio tîm
- Gall tîm gynnwys cymysgedd o oedrannau rhwng 5 a 18.
- Gall mwy nag un prosiect tîm fynd i gystadleuaeth
- Enillwch arian ar gyfer eich clwb, grŵp neu ysgol!
- **Gwobr 1af £1000, 2il wobr £750, 3edd wobr £500, 4edd wobr £350, a gwobrau ariannol pellach i'w hennill!**
- Rhaid i'ch prosiect gynorthwyo gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl eraill
- Cofrestrwch eich grŵp o ddydd Llun 5 Mehefin ymlaen!

Rhaid i bob grŵp fod ag o leiaf un oedolyn yn ymgynghori – rhywun sy'n rhan o'r tîm ac sy'n 18 oed neu drosodd.

Bydd angen i'ch ymgynghorydd sy'n oedolyn gofrestru eich tîm. Cliciwch yma er mwyn gofyn am eich Llyfr Cofnodion ar gyfer Her Fawr yr Haf.

Os ydych angen mwy o wybodaeth am yr her, e-bostiwch: youthengagementofficer@northwales.police.uk

#HerFawrYrHaf2023

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Lifeboats

PACT

